Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam
Wrexham Family Information Service

CANLLAW I

FFYNONELLAU CYLLID

AR GYFER

DARPARWYR

GOFAL PLANT

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

2011

CANLLAW I FFYNONELLAU CYLLID I DDARPARWYR GOFAL PLANT

	Tudalen
Cyflwyniad – Canllaw syml	**3**
Dechrau arni – Cynllun ar gyfer llwyddiant	**4**
Cymorth i lenwi ffurflenni cais	**5**
Cefnogaeth gan gwmnïau	**6**
Ffynonellau cyllid	**7**
Cysylltiadau defnyddiol	**17**
Syniadau i godi arian	**19**
Swyddog Cyllid Gofal Plant	**20**

Cyflwyniad – Canllaw syml

Mae'r canllaw hwn wedi'i lunio i'w ddefnyddio gan bawb sy'n darparu gofal plant. Ei nod yw cael gwared ar y gwaith caled sy'n gysylltiedig â'r dasg hynod anodd o ymchwilio a chael mynediad at gyllid i ddechrau a chynnal darpariaeth gofal plant. Mae'r wybodaeth syml a hawdd ei dilyn yn y canllaw hwn yn helpu darparwyr gofal plant i gynllunio, gwneud cais a llwyddo i gael cyllid. Mae hefyd yn cynnwys rhestr o gysylltiadau defnyddiol a fydd yn gallu eich helpu bob cam o'r ffordd gan roi cyngor a chymorth. Yn olaf, ceir rhai syniadau hwyliog i godi arian. Pa beth bynnag sydd ei angen arnoch, dylai'r canllaw hwn allu eich helpu i ddod o hyd i gyllid a llwyddo yn eich ymgyrch.

DECHRAU ARNI – CYNLLUN AR GYFER LLWYDDIANT

Datblygu strategaeth ariannu

Gwnewch restr o'r arianwyr hynny yr ydych chi wedi'u nodi fel cyfranwyr posibl a chysylltwch â nhw. Bydd ychydig funudau ar y ffôn, ffacs neu'r rhyngrwyd yn arbed llawer o amser a gwaith yn llunio cais os ydych yn darganfod nad yw eich prosiect chi'n gymwys i gael cyllid gan y cyfrannwr hwnnw, neu bod y cyfrannwr wedi gwario ei holl gyllid ar gyfer prosiectau tebyg y flwyddyn honno. Gallwch hefyd ddarganfod beth yn union sydd ei angen ar gyfer y cais a gofyn am ffurflen gais yn ôl yr angen.

Unwaith i chi lunio rhestr o gyfranwyr posibl, rydych yn barod i ddechrau'r broses ymgeisio. Bydd cais da yn dangos sut mae'ch cynllun o fudd i'r gymuned leol, ei phlant a'i rhieni.

Mae arianwyr yn fwy tebygol o ymateb i gais sydd:-

- Yn dod o fudiad credadwy
- Â phrosiect da
- Yn darbwyllo cyfranwyr bod ganddynt ddiddordeb yn y prosiect
- Yn hyrwyddo gofal plant o ansawdd dda
- Wedi cysylltu â'r darpar ariannwr cywir

Gan ddibynnu ar natur eich cais, bydd angen i chi feddwl am:-

- Eich pwyntiau gwerthu unigryw sy'n gwneud i'ch cais sefyll allan oddi wrth y lleill.
- Rhoi enw penodol a phriodol i'ch prosiect – enw hwyliog o bosibl a awgrymwyd gan y plant.
- Crynhoi eich prosiect ar ddechrau'r cais rhag ofn na fydd yr ariannwr yn darllen ymhellach na'r dudalen gyntaf.
- Esboniad da o'r gwasanaethau yr ydych yn eu darparu. Gallech gynnwys dyfyniad gan riant neu blentyn sy'n defnyddio'ch cynllun.
- Esboniad da o pam bod angen eich prosiect ar y gymuned a sut fydd yr arian yn helpu i'w gefnogi.

Dysgwch o brofiad
Cadwch gofnod o'r hyn sy'n llwyddo a chopïwch yr ymagweddau hyn gyda chyfranwyr posibl eraill. Hefyd, cydnabyddwch gyllid bob amser gan esbonio sut mae wedi helpu eich grŵp. Beth am wahodd yr arianwyr i weld sut mae'r cyllid wedi'ch cefnogi? Efallai y bydd yn bosibl i chi fynd yn ôl at yr arianwyr sydd wedi'ch cefnogi yn y gorffennol – maent eisoes wedi mynegi diddordeb, felly ceisiwch gynnal y berthynas honno.

Cymorth i lenwi ffurflenni cais

Casglwch gymaint o wybodaeth â phosibl am yr ariannwr. Siaradwch gyda'r ariannwr os yn bosibl, siaradwch gyda grwpiau eraill sydd wedi llwyddo i gael cyllid a gofynnwch i'ch cyngor gwirfoddol lleol am gymorth (AVOW, gweler Cysylltiadau Defnyddiol). Mae amser ac ymdrech yn dyngedfennol yn ystod y cam hwn. Wrth wneud ceisiadau, dylech ddilyn y canllawiau isod:-

- Cymerwch nifer o gopïau o'r ffurflen gais cyn i chi ddechrau ac ymarferwch. Darllenwch y cwestiynau'n ofalus cyn dechrau llenwi'r ffurflen gais.

- Atebwch yr holl gwestiynau.

- Cofiwch gael yr holl lofnodion sydd eu hangen.

- Gofynnwch i rywun wirio eich ffurflen gais cyn i chi ei hanfon. A yw'n glir ac yn hawdd ei deall?

- Cadwch y ffurflen gais yn lân ac yn daclus. Gwiriwch am wallau sillafu.

- Cynhwyswch yr holl ddeunyddiau y mae'r ariannwr yn gofyn amdanynt.

- Rhowch fan cyswllt clir i'r ariannwr.

- Gwnewch lungopi o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau cyn i chi ei hanfon er mwyn i chi gyfeirio ati os bydd yr ariannwr yn cysylltu â chi.

- Ymdriniwch ag unrhyw geisiadau am fwy o wybodaeth yn gyflym a rhowch wybod i'r ariannwr am unrhyw newidiadau perthnasol sy'n digwydd.

- Bodlonwch ddyddiadau cau. Peidiwch â disgwyl i arianwyr fod yn gydymdeimladol os yw eich cais yn hwyr. Mae ganddyn nhw derfynau amser hefyd.

Cefnogaeth gan gwmnïau

Mae'r mwyafrif o gwmnïau'n rhoi o hunan-les ac yn ystyried eu rhoddion fel 'cyswllt â'r gymuned' neu 'fuddsoddiad yn y gymuned'. Mae'n syniad da edrych trwy'r papurau newydd lleol yn rheolaidd i weld pa gwmnïau sy'n cynnig cefnogaeth i brosiectau tebyg, ar gyfer beth y darparwyd y grant a swm y grant. Mae dod o hyd i gwmni yr ydych chi'n gwybod sydd wedi rhoi i achosion tebyg yn gam cyntaf da.

Nesaf, rhowch eich hunain yn sefyllfa'r cwmni. Pam ddylent fod eisiau eich cefnogi chi? Pam ddylent ddewis eich cais chi yn lle unrhyw geisiadau eraill y byddant yn eu derbyn? Ceisiwch ddarganfod cymaint ag y gallwch am y cwmnïau yr ydych chi wedi'u nodi fel cyfranwyr posibl.

Meddyliwch am y manteision y byddant yn eu cael o'ch cefnogi chi a nodwch y rhain yn eich llythyr cyntaf:

- A yw'n dweud beth yw eich cyswllt â'r cwmni?
- A yw'n pwysleisio'r manteision i'r cwmni?
- A yw'n glir pam bod angen yr arian arnoch?
- A yw'r llythyr wedi'i gyfeirio at y cyswllt cywir?
- A yw'r cais yn ddeniadol i'r cwmni e.e. a fydd eu cyfraniad yn galluogi i brosiect llawer mwy fynd yn ei flaen?
- A yw eich llythyr yn gryno ac yn bwrpasol? Gallwch gynnwys mwy o wybodaeth yn eich atodiadau.

Mae llawer o gefnogaeth gan gwmnïau'n disgyn y tu allan i gyllid grant. Gall cwmnïau gefnogi elusennau mewn amryw o wahanol ffyrdd:

- Cefnogaeth mewn nwyddau, sy'n cynnwys rhoi cynnyrch y cwmni neu offer swyddfa sydd dros ben.
- Annog gweithwyr i wirfoddoli neu gynnal ymgyrchoedd i godi arian.
- Galluogi gweithwyr i roi o'u cyflogau.
- Noddi digwyddiad, gweithgaredd neu gynllun gwobrwyo.

Cofiwch, os byddwch yn llwyddo i gael cefnogaeth y cwmni, diolchwch iddynt a rhowch wybod iddynt sut mae'r prosiect yn dod yn ei flaen – efallai y bydd angen eu cefnogaeth arnoch eto yn y dyfodol.

Ffynonellau cyllid

Mae'r cynlluniau canlynol ar gael i unigolion, grwpiau gwirfoddol a mudiadau yng Nghymru. Canllaw cyffredinol yn unig yw'r cofnodion a bydd y cysylltiadau'n gallu darparu gwybodaeth fanylach.

Sefydliad Santander

Mae Sefydliad Santander yn cyfuno mentrau a gyflawnwyd yn flaenorol gan yr Abbey National, Alliance & Leicester a Bradford & Bingley. Mae'r Sefydliad yn ariannu elusennau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer eu gwaith yn y DU. Maent wedi ymrwymo i helpu pobl o dan anfantais drwy ddwy flaenoriaeth elusennol: addysg a hyfforddiant neu allu ariannol. Ymysg yr enghreifftiau o brosiectau a ariannwyd drwyddynt y mae sesiynau celf a chrefft i blant o dan anfantais. Dyfernir grantiau unwaith yn unig o hyd at £10,000. Maint cyfartalog grantiau yw £4,000 a gall hyn fod ar gyfer costau cyfalaf neu refeniw. Gweler eu gwefan am fwy o wybodaeth: www.santanderfoundation.org.uk http://www.santanderfoundation.org.uk. Neu cysyllter gydag Alan Eagle, Santander Foundation, 201 Grafton Gate East, Milton Keynes MF9 1AN, e-bost: grants@santander.co.uk

Alexandra Rose Day – Helpu Elusennau i Helpu eu Hunain

Sefydlwyd Alexandra Rose Day ym 1912 gan y Frenhines Alexandra, pan werthodd miloedd o wirfoddolwyr rosod yn Llundain er budd ysbytai a sefydliadau elusennol eraill. Heddiw, mae traddodiad Alexandra Rose Day yn parhau trwy helpu elusennau sy'n gofalu am bobl i helpu eu hunain. Gall unrhyw elusen fach neu leol yng Nghymru a Lloegr sy'n cefnogi pobl anabl, plant, pobl ifanc a'r henoed godi arian trwy weithio ar y cyd ag Alexandra Rose Day yn eu digwyddiadau codi arian:

Diwrnodau casglu – mae elusennau partner yn darparu gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn casgliadau ar y stryd, o ddrws i ddrws ac mewn archfarchnadoedd. Mae Alexandra Rose Day yn trefnu'r digwyddiad, yn darparu'r offer, cyhoeddusrwydd ac yn cwmpasu'r gofynion rheoleiddiol. Mae'r elusennau sy'n cymryd rhan yn cadw 90% o'r arian sy'n cael ei godi. Y diwrnod casglu ar gyfer 2007 yw 23 Mehefin a bydd yn cael ei lansio gan y Prif Weinidog a fydd yn prynu rhosyn ar drothwy 10 Downing Street yn unol â'r traddodiad.

Raffl cydelusennau – mae'r raffl flynyddol hon yn ffordd hawdd a di-risg i grwpiau bychain godi arian. Mae Alexandra Rose Day yn darparu'r tocynnau raffl a'r holl wobrau ac mae'r elusennau'n cadw 90% o'r arian sy'n cael ei godi. Y tair gwobr gyntaf yw £2,000, £1,000 a £500 mewn arian parod, ynghyd â nifer o wobrau eraill, ac mae'r tocynnau'n costio 50c yr un ac yn cael eu gwerthu mewn llyfrau o bump. Mae'r arian sy'n cael ei godi trwy werthu tocynnau'n cael ei fancio gan yr elusennau sy'n cymryd rhan, a dim ond wedi hynny y mae'r bonion a'r 10% sy'n weddill yn cael eu hanfon at Alexandra Rose Day. Nid oes unrhyw risg ac nid oes angen talu unrhyw arian ymlaen llaw. Mae tâl cofrestru o £30.

Cronfa apeliadau arbennig – gall unrhyw elusen sy'n cymryd rhan yn un o'r casgliadau gyflwyno cais ysgrifenedig am grant. Maent yn gweithio gydag elusennau sy'n gweithio gyda phobl anabl, plant, pobl ifanc a'r henoed, sy'n anelu at helpu pobl mewn angen neu wella ansawdd eu bywydau.
Y budd gwirioneddol i elusennau sy'n gweithio gydag Alexandra Rose Day yw y gellir codi arian at unrhyw bwrpas ac mae'n wahanol i gyllid grant, sy'n cael ei gyfyngu'n gyffredinol i brosiectau arbennig sy'n bodloni meini prawf yr arianwyr.

Sefydliad Asda

Casgliadau lleol: Cysylltwch ag Asda Wrecsam i weld a allwch drefnu diwrnod i godi arian i'ch grŵp gwirfoddol yn y siop. Mae llawer o grwpiau wedi codi arian trwy drefnu i help cwsmeriaid i bacio eu siopa ar ddydd Sadwrn ac maent wedi cael peth arian haeddiannol i gynyddu eu cyllid!

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: Chydlynydd Digwyddiadau Lleol Asda Wrecsam, Ffôn: 01978 367200.

Arian i Bawb Cymru

Mae hon yn rhaglen grantiau gan y Loteri sydd wedi'i thargedu at gymunedau lleol. Ei phrif nod yw cynnwys pobl yn eu cymunedau lleol gan ddod â nhw at ei gilydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Mae prosiectau cymwys yn cynnwys y rheiny sy'n ymestyn mynediad a chyfranogiad, yn gwella sgiliau a chreadigedd ac yn gwella ansawdd bywyd. Mae'r grantiau'n amrywio o £500 i £5,000. Mae'r ffurflen gais yn fyr ac yn syml gyda chanllawiau a gwneir penderfyniadau o fewn 3 mis.
Ni all Arian i Bawb Cymru ariannu:
costau rheolaidd (cyflogau, rhent ac ati), er y gellir dyfarnu arian ar gyfer costau craidd os yw'r prosiect/grŵp yn un newydd neu os bydd y grant yn galluogi'r prosiect i ddatblygu'n sylweddol;
gwaith adnewyddu/gwelliannau i dir neu eiddo nad yw'n perthyn/cael ei brydlesu gan y grŵp; prosiectau na ellir eu cwblhau o fewn 12 mis.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag: Arian i Bawb Cymru, 2il Lawr, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd, Powys SY16 1JB. Ffôn: 01686 611 700. Gwefan: www.awardsforall.org.uk

AVOW – Rhaglen Arian Cyfalaf Adnoddau a Gweithgareddau Cymunedol Wrecsam

Mae Rhaglen Adnoddau a Gweithgareddau Cymunedol Wrecsam yn rhaglen ariannu prosiectau cyfalaf yn unig. Mae hi'n rhoi grantiau bychain i ariannu prosiectau gan gyrff gwirfoddol a chymunedol. Mae'n rhaid i'r prosiectau fod o fudd i'r gymuned, mae'n rhaid i'r gymuned fod yn rhan o'r prosiect ac mae'n rhaid i'r prosiect gyfrannu at adfywiad Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r Panel Grantiau'n cyfarfod pob chwarter, fel arfer yn wythnos gyntaf Mehefin, Medi, Rhagfyr a Mawrth. Mae'n rhaid cwblhau a chyflwyno ceisiadau am grant o leiaf 4 wythnos cyn pob cyfarfod. Am fwy o wybodaeth neu ffurflen gais cysylltwch â Lynda.williams@avow.org neu ffoniwch 01978 312556. Rhaglen Adnoddau a Gweithgareddau Cymunedol Wrecsam, AVOW, Tŷ AVOW, 21 Stryd Egerton, Wrecsam LL11 1ND.

B&Q, Wrexham

Gall ysgolion, grwpiau cymunedol a mudiadau elusennol wneud cais yn eu siopau B&Q lleol am gyllid i gefnogi prosiect cymunedol lleol. Mae'r grantiau ar gael i helpu i sefydlu prosiectau cymunedol a dylent fod o fudd hirdymor i'r gymuned. Mae'r cynllun yn darparu gwerth £50 hyd at £500 o ddeunyddiau B&Q i ysgolion lleol, grwpiau cymunedol a mudiadau elusennol. Mae gan bob siop gyllideb o £1,000 i ddyrannu grantiau o rhwng £50 a £500 i bob prosiect.

Oherwydd y nifer fawr o geisiadau bob blwyddyn dylech wneud cais yn gynnar ym mis Chwefror i gael y cyfle gorau o dderbyn grant.

Yn ogystal, mae pob siop yn cynnig deunyddiau gwastraff a nwyddau na ellir eu gwerthu i brosiectau lleol h.y. torion pren, tuniau paent wedi'u difrodi ac ati.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Hyrwyddwr Amgylcheddol B&Q Wrecsam. Ffôn: 01978 362777

Gwobrau Living Awards, B&Q
Caiff gwobrau B&Q eu lawnsio bob mis Ionawr ac maent yn cynnig rhwng gwerth £1,000 a £10,000 o gynnyrch B&Q i sefydliadau ledled y DU ac lwerddon sy'n gweithio ar brosiectau sy'n anelu at wella'r gymuned leol. Rhaid i brosiectau fod yn un o'r categorïau canlynol: yr amgylchedd/arbed ynni: cynefinoedd naturiol a bywyd gwyllt: diwylliant/treftadaeth leol.

Apêl Plant mewn Angen y BBC (Cymru)

Mae Plant mewn Angen wedi lansio rhaglen fechan o grantiau gyda'r nod o gael ceisiadau gan sefydliadau nad ydynt wedi gwneud cais i Blant mewn Angen o'r blaen. Bydd grantiau o hyd at £10,000 y flwyddyn am hyd at 3 blynedd ar gael i sefydliadau ar draws y DU sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae Plant mewn Angen yn awyddus i gael ceisiadau gan sefydliadau llai ar draws y DU nad ydynt wedi dod atynt cyn hyn. Bydd pedair rownd o geisiadau bob blwyddyn. Gan fod y ceisiadau a geir bob blwyddyn yn fwy na'r arian a godir, bydd ceisiadau'n cael eu hasesu er mwyn sicrhau fod grantiau'n cael eu targedu i ardaloedd o wir angen. Mae aelodau pwyllgor gwirfoddol, wedi eu lleoli ym mhob rhanbarth, yn tynnu ar eu harbenigedd a'u gwybodaeth leol i gynghori ein bwrdd o Ymddiriedolwyr pa brosiectau ddylai gael grantiau, a chaiff arian ei rannu'n ddaearyddol i sicrhau fod pob rhan o'r DU yn cael ei siâr o'r arian a godir. Gall unrhyw sefydliad nad yw'n gwneud elw, ac sy'n gweithio gyda phobl ifanc a phlant o dan 18 oed, wneud cais. Mae Plant mewn Angen yn gobeithio gwneud penderfyniadau o fewn 14 diwrnod i ddyddiad cau pob rownd. Am fwy o wybodaeth gweler y wefan. http://www.bbc.co.uk/pudsey/grants.

Sefydliad Elusennol Bernard Sunley

Mae'r sefydliad elusennol hwn yn ymddiriedolaeth sy'n dyfarnu grantiau cyffredinol. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, dyfarnwyd cyfanswm o ryw £2.5 miliwn i ystod eang o elusennau.
Mae apeliadau am gymorth grant yn cael eu hystyried yn rheolaidd. Dyfernir grantiau i elusennau cofrestredig yn unig ac nid unigolion. Nid oes ffurflen gais ond dylai ymgeiswyr ysgrifennu at y Cyfarwyddwr gan roi manylion am y pwyntiau canlynol. Dylid cynnwys yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon cymeradwy diweddaraf gyda'r llythyr hwn.
0Yr hyn mae'r elusen yn ei wneud a'i hamcanion
Beth yw'r galw a phwrpas y prosiect, pwy fydd yn cael budd a sut
Faint fydd y prosiect yn ei gostio
Faint o arian sydd wedi'i godi eisoes a chan bwy
Sut fydd costau rhedeg y prosiect yn cael eu bodloni unwaith iddo gael ei sefydlu
Unrhyw ddogfennau ategol eraill
Mae'r ymddiriedolaeth hefyd yn dyfarnu grantiau cynaladwyedd. Yn gyffredinol, bydd y grantiau'n amrywio o £200 i £5,000 a gallant fod ar gyfer costau refeniw a chyfalaf.
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: Mr J Rimmington, Bernard Sunley Charitable Foundation, 20 Berkley Square, London WJ1 6LH, Ffôn: 020 7408 2198, Ffacs: 020 7499 5859.

Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau'n Gyntaf

Nod Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau'n Gyntaf yw cefnogi unrhyw fath o weithgaredd sy'n cynnwys pobl leol, drwy brosiectau cymunedol bychain. Rhoddir blaenoriaeth i grwpiau newydd sydd heb dderbyn arian o'r blaen. Mae'n rhaid i'r gweithgareddau gynnig rhyw fath o fudd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol i bobl sy'n byw mewn Ardal Cymunedau'n Gyntaf. Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg o'r flwyddyn ond mae'n well

ymgeisio ar ddechrau blwyddyn ariannol gan fod grantiau'n cael eu prosesu ar sail y cyntaf i'r felin. Gellir cael mwy o help i gyflwyno a ffurflen gais drwy:

Ffonio llinell gymorth Cymunedau'n Gyntaf ☎0800 587 8898 neu e-bostio help@wcva.org.uk Cysylltu eich tîm Cymunedau'n Gyntaf lleol (manylion ar www.communities-first.org neu drwy ffonio'r llinell gymorth 0800 587 8898)

Cronfa Gymunedol y Co-operative

Mae Cronfa Gymunedol Aelodaeth y Co-operative yn gynllun grantiau sy'n helpu cymunedau lleol drwy'r DU. Dechreuwyd y fenter ym 1997, ac mae miloedd o glybiau, grwpiau cymunedol ac elusennau lleol wedi elwa. Er mwyn llwyddo, mae'n rhaid i grŵp wneud gwaith cadarnhaol yn y gymuned a

- mynd i'r afael a mater cymunedol
- darparu budd tymor hir i'r gymuned
- cefnogi gwerthoedd ac egwyddorion y co-operative
- yn ddelfrydol, bod yn fentrus yn eu dull o weithio

Mae'r cynllun yn unigryw oherwydd ei fod wedi ei ariannu gan aelodau hael y Co-operative yn cyfrannu peth neu'r cyfan o'u siâr o'r elw, a fydd wedyn yn cael ei roi ar ffurf grantiau bychain yn eu cymunedau lleol. Mae'r aelodau hyn eisoes wedi rhoi miliynau o bunnoedd, a'r llynedd rhoddwyd dros £1 miliwn i grwpiau llwyddiannus.
Os hoffech wneud cais am arian i'ch grŵp neu sefydliad lleol, gallwch lawr lwytho, llenwi a dychwelyd ffurflen gais o'r wefan. http://www.co-operative.coop/membership.

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Hon yw asiantaeth adfywio fwyaf blaenllaw'r DU ar gyfer cyn ardaloedd meysydd glo. Mae'r ymddiriedolaeth yn croesawu ceisiadau gan grwpiau, mudiadau ac asiantaethau sy'n ymroddedig i adfywio ardaloedd meysydd glo a'u cymunedau. Ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys Rhostyllen, Aberoer, Legacy, Pentrebychan, Bronwylfa, Y Mwynglawdd, Penycae a'r Ponciau. Mae'r ymddiriedolaeth wedi lansio rhaglen grantiau cyflym newydd i grwpiau gwirfoddol a chymunedol bychain o'r enw "Pontio'r Bwlch". Bydd y rhaglen hon yn caniatáu mynediad cyflym at grantiau bychain (£500 - £10,000).

Bydd yr ymddiriedolaeth yn beirniadu pob prosiect ar ei deilyngdod, felly nid oes unrhyw restr benodol o bethau y byddant yn eu hariannu. Mae grantiau cyfalaf a/neu refeniw yn gymwys. Rhaid i brosiectau fodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol: datblygu cyfleusterau cymunedol; meithrin gallu'r gymuned; datblygu menter fusnes gymunedol a'r economi cymdeithasol; cefnogi dysgu gydol oes; creu swyddi a chyfleoedd hyfforddiant.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag: Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Uned 7, Maritime Offices, Woodland Terrace, Maesycoed, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF47 1DZ. Ffôn: 01443 404455. E-bost: alunt@coalfields-regen.org.uk
Gwefan: www.coalfields-regen.org.uk

Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru

Mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn elusen gofrestredig sy'n rhoi grantiau i grwpiau a phrosiectau sydd angen cyllid ac sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau'r bobl y maent yn eu cefnogi ac i'r gymuned ehangach.

Am fwy o fanylion cysylltwch â: Sefydliad, 14-16 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DG. Rhif ffôn: 029 2052 0250, Ffacs: 029 2052 1250. Neu, ewch i: www.cfiw.org.uk

Ymddiriedolaeth Dulverton

Mae Ymddiriedolaeth Dulverton yn darparu grantiau i elusennau cofrestredig yn y DU ac i fudiadau sydd â statws elusennol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau yn cynnwys ieuenctid ac addysg. Maent yn cefnogi elusennau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n gweithredu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae cryn lawer o amddifadedd, ac yn enwedig lle byddai grant yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r sawl sy'n ei gael .Y flaenoriaeth yw gweithgareddau a chyfleoedd addysgol i bobl ifanc ddifreintiedig, i'w helpu i wireddu eu potensial.

Edrychwch ar y wefan isod i gael gwybodaeth am eu polisi cyllido ac eithriadau: www.dulverton.org. Gallwch gael rhagor o wybodaeth hefyd oddi wrth Ymddiriedolaeth Dulverton, 5 St James's Place, Llundain SW1A 1NP

Sefydliad Garfield Weston

Mae'r sefydliad hwn yn dyfarnu rhyw 1,500 o grantiau unigryw bob blwyddyn i elusennau cofrestredig am symiau rhwng £3,000 ac £1 miliwn. Mae tua hanner yr holl geisiadau'n arwain at ddyfarnu grantiau. Ystyrir pob cais ar sail unigol gan bwyllgor o ymddiriedolwyr. Mae'n cymryd rhyw 3 neu 4 mis i brosesu ceisiadau a chaiff ymgeiswyr eu hysbysu o'r canlyniad trwy lythyr. Mae'r ymddiriedolwyr yn cyfarfod bob mis ac nid oes unrhyw ddyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Ystyrir ceisiadau ar gyfer mynediad i bobl anabl. Mae ffurflenni cais a chanllawiau ar gael.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: Garfield Weston Foundation, Weston Centre, 10 Grovenor Street, London, W1K 4QY. Ffôn: 02073 996565 Gwefan: www.garfieldweston.org

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Drwy ei ariannu nod yr Ymddiriedolaeth yw gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Yn arbennig mae'r Ymddiriedolaeth yn anelu at hyrwyddo addysg, hanes, iaith a chwedloniaeth, yn enwedig ar gyfer y rhai hynny sy'n wynebu anfantais neu wahaniaethu. Mae Cymru yn wlad gyfoethog o ran ei diwylliant, ei hanes, ei hiaith a'i llwyddiannau mewn chwaraeon. Yn y cyfnod hwn lle mae globaleiddio ar gynnydd mae pobl yn aml yn anghofio beth sydd yn eu hardal leol.

Y Gymuned

Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i dargedu cymunedau lleol sy'n dioddef anfantais fwyaf yng Nghymru. Blaenoriaethau Ariannu. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn rhoi blaenoriaeth i sefydliadau sy'n ceisio mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol, personol, economaidd neu ddiwylliannol o fewn eu cymunedau eu hunain. Rhoddir blaenoriaeth yn arbennig i brosiectau sy'n arwain at ragor o annibyniaeth a rhoi rhagor o reolaeth i bobl dros eu bywyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu ceisiadau sy'n rhoi llais i bobl fynegi eu hanghenion a'u gobeithion.

Swyddfa'r Ymddiriedolaeth, Millennium Stadium Charitable Trust, c/o Fusion, Loft 2, Ocean House, Clarence Road, Cardiff Bay CF10 5FR; Ffôn: (029) 20494963 Fax: (029) 20494964 Email: MSCT@fusionik.org.uk

Sefydliad Morgan

Mae Sefydliad Morgan yn cefnogi elusennau ledled gogledd Cymru, Glannau Merswy, gorllewin Swydd Gaer a gogledd Swydd Amwythig. Mae'r sefydliad wedi ymestyn ei raglen grantiau'n ddiweddar i £1 miliwn y flwyddyn. Mae Sefydliad Morgan yn arbenigo mewn cefnogi mudiadau sy'n helpu plant a theuluoedd, a bydd yn ystyried unrhyw waith sy'n cael

effaith gadarnhaol ar eu lles neu sy'n ymestyn cyfleoedd a dewisiadau bywyd i bobl ifanc yn yr ardal hon. Mae agweddau y maent wedi'u cefnogi hyd yma wedi cynnwys anableddau corfforol ac anableddau dysgu, iechyd corfforol ac iechyd meddwl a her gymdeithasol ac amddifadedd. Bydd y sefydliad yn ystyried helpu elusennau sy'n bodloni anghenion eraill hefyd, cyn belled â'u bod yn bodloni eu prif amcan o 'wneud gwahaniaeth'.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: www.morganfoundation.co.uk
Neu am sgwrs anffurfiol, ffoniwch Jane Harris (Gweinyddydd) ar 01829 782800.

Ymddiriedolaeth Noel Buxton

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Noel Buxton gan Noel Edward Buxton (yr Arglwydd Noel Buxton cyntaf yn ddiweddarach) yn 1919 i sicrhau cynnydd cymdeithasol ac economaidd ym Mhrydain a ledled y byd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu ceisiadau gan elusennau cofrestredig. Corff bach yw'r ymddiriedolaeth ac anaml y mae'n rhoi grantiau o fwy na £4000; mae'n rhoi tipyn llai yn aml. Ar gyfartaledd roedd y grantiau yn 2009 oddeutu £1700. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi amryw o feysydd yn cynnwys lles plant mewn teuluoedd difreintiedig a phlant mewn angen. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys teuluoedd sydd â phlant oedran ysgol gynradd ac iau, er y bydd gwaith gyda phlant mewn gofal yn cael ei ystyried hyd at yr oedran y maent yn gadael gofal.
I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.noelbuxtontrust.org.uk. Neu cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Ymddiriedolaeth Noel Buxton, P O Box 393, Farnham Surrey GU9 8WZ

Cynllun Grantiau Bach ar gyfer Gweithgareddau Gwyliau'r Haf
Mae'r cynllun hwn, sy'n cael ei ariannu gan Sefydliad Lankelly, yn cefnogi gweithgareddau gwyliau i blant rhwng 5 a 13 oed. Rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau chwarae lleol sy'n para 4-6 wythnos a grwpiau sy'n cynllunio gwyliau neu weithgareddau arbennig i blant difreintiedig neu sydd ag anabledd. Rhoddir grantiau o rhwng £200 a £400.
Mae ffurflenni cais ar gael ar y dudalen bwletinau ar y wefan (gweler y manylion isod) a'r adeg gorau i'w cyflwyno yw mis Ionawr/Chwefror (ond cânt eu hystyried trwy gydol y flwyddyn) er mwyn rhoi amser i'w hystyried am gyllid yn barod ar gyfer gwyliau'r haf.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: The Director, The Lankelly Foundation, 2 The Court, High Street, Harwell, Oxon 0X11 0EY. Ffôn : 01235 820044. Gwefan: www.lankelly-foundation.org.uk

Cyllid Cynaliadwy Cymru

Mae Cyllid Cynaliadwy Cymru'n un o brosiectau CGGC sy'n cael ei gefnogi gan Gronfa'r Loteri Fawr. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei gynnig ar gyfradd gymorthdaledig o £10 y pen am bob cwrs i fudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae'r prosiect yn cynnig cymorth a chefnogaeth ymarferol i fudiadau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn datblygu ymagwedd gynaliadwy tuag at ariannu. Cyflawnir hyn trwy gynnig cyfuniad o hyfforddiant arbenigol, cyngor, cefnogaeth a gwasanaethau gwybodaeth.

Trwy weithio ar y cyd â chynghorau gwirfoddol sirol (CVCau) a chyrff ambarél eraill, bydd y fenter yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar fudiadau i gael a chynnal yr adnoddau sydd eu hangen arnynt yn yr hirdymor.

Mae gwefan bwrpasol yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am amrywiaeth o fethodolegau ariannu cynaliadwy, canllawiau, astudiaethau achos, ffynonellau o gymorth pellach ac adnoddau eraill yn benodol i Gymru. Ewch i www.sustainablefundingcymru.org.uk

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch: Sara Carroll a Nicola Llewelyn ar 01570 424175/6.
E-bost: scarroll@wcva.org.uk / nllewelyn@wcva.org.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol Tesco

Yn 2006, rhoddodd Ymddiriedolaeth Elusennol Tesco werth £1,496,373 o grantiau i elusennau lleol a chenedlaethol yn y DU. Rhoddodd Cynllun Dyfarniadau Cymunedol Ymddiriedolaeth Elusennol Tesco gyfanswm o £399,000 i brosiectau lleol. Mae'r rhain yn darparu manteision ymarferol i'r gymuned leol ar gyfer tri grŵp sy'n agored i niwed: plant, yr henoed a phobl anabl.
Bydd y cynllun grantiau'n rhoi grantiau o rhwng £1,500 a £5,000 i gefnogi prosiectau lleol mewn ardaloedd sydd ag archfarchnadoedd Tesco.

Am fwy o wybodaeth, anfonwch e-bost at: community.sponsorship@uk.tesco.com
Neu ewch i: www.tescocorporate.com/charitiesandfundraising.htm

Yr Ymddiriedolaeth Deganau

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Deganau yn 1990 gan Gymdeithas Teganau a Hobïau Prydain. Mae'n codi arian yn bennaf oddi wrth y diwydiant teganau, ei gyflenwyr a ffrindiau; ac mae'n dosbarthu'r arian a godir i elusennau plant ifanc difreintiedig ac anabl yn y DU a thramor.
Mae'r pwyllgor yn cwrdd bump neu chwe gwaith y flwyddyn i ddyrannu grantiau i achosion plant y mae angen cymorth arnynt. Bydd pob prosiect ac elusen, boed yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, yn cael ei ystyried gan y pwyllgor.
Bydd yr Ymddiriedolaeth Deganau yn darparu grantiau i elusennau cofrestredig a mudiadau cymunedol sy'n ymwneud â phlant anabl a difreintiedig a'u teuluoedd a chymunedau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phlant (o'u geni hyd at 13 oed). Un o'i meini prawf yw prynu cyfarpar hanfodol.

Mae'r Ymddiriedolaeth Deganau yn helpu plant difreintiedig a'u teuluoedd i:
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r BTHA ar 020 7701 7271 neu anfonwch e-bost at tracey@btha.co.uk. Gallwch hefyd gael gwybodaeth ar y wefan:
http://www.btha.co.uk/toytrust

Ymddiriedolaeth Tudor

Mae'r ymddiriedolaeth wedi cyhoeddi manylion ei blaenoriaethau ariannu o fis Ebrill 2008 hyd fis Mawrth 2009. Bydd yr ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau yn y meysydd canlynol: pobl ifanc, pobl hŷn, cymunedau, cydberthnasau, tai, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, dysgu, sicrwydd ariannol a chyfiawnder troseddol. Nid oes unrhyw uchafswm na lleiafswm ar gyfer grantiau. Fel rheol, bydd yr ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau dros gyfnod o flwyddyn, dwy flynedd neu dair blynedd. Gellir ystyried ceisiadau ar gyfer costau craidd (gan gynnwys cyflogau a chostau rhedeg), costau prosiectau, cyllid datblygu neu grantiau cyfalaf ar gyfer adeiladau ac offer.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: www.tudortrust.org.uk

Aelodaeth a Desg Gymorth CGGC

Bob mis, mae dros 1,000 o fudiadau gwirfoddol yn elwa ar y wybodaeth, newyddion, diweddariadau cyllid a'r arbedion y maent yn eu cael wrth fod yn aelod llawn o'r CGGC.

Mae aelodaeth lawn yn costio £25 y flwyddyn ac yn cynnwys cylchgrawn y sector gwirfoddol dwywaith y mis, e-hysbys bob pythefnos a chwiliadau personol am grantiau. Mae gan

aelodau hawl i gael gostyngiadau ar feddalwedd a chaledwedd gyfrifiadurol, telathrebu, gwasanaethau cyfieithu, yswiriant, nwyddau corfforaethol a deunyddiau cyhoeddusrwydd hefyd.

Am fwy o wybodaeth neu i wneud cais am becyn aelodaeth a ffurflen gais, anfonwch e-bost at: help@wcva.org.uk Neu ffoniwch ddesg gymorth CGGC ar 0800 2888 329.

Wilkinsons

Mae Wilkinson's Helping Hands yn fenter gymunedol lle mae pob siop yn cael cyllideb i'w dosbarthu i brosiectau a chynlluniau o fewn cymuned leol y siop. Byddant yn cefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Er mwyn gwneud cais am gyfraniad gan Gronfa Helping Hands, rhaid i chi fynd i'ch siop leol a chael ffurflen gais. Gellir cael y ffurflenni hyn ar fyrddau coch cymunedol eich siop neu os na fyddant yno, gofynnwch am gymorth ar y ddesg cymorth i gwsmeriaid.

Wooden Spoon

Mae grantiau ar gael ar gyfer prosiectau sydd o fudd i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed, sydd dan anfantais corfforol, meddyliol neu gymdeithasol. Yn gyffredinol, mae'r grantiau'n amrywio o £20,000 i £100,000 ar gyfer prosiectau cyfalaf. Rhaid i brosiectau llwyddiannus fod â bywyd oes arfaethedig hirdymor ac anaml iawn y rhoddir grantiau ar gyfer cyfrifiaduron ac offer technolegol.

Am fwy o wybodaeth am Wooden Spoon neu eu gweithgareddau i godi arian, ewch i'r wefan: www.woodenspoon.com. Am fanylion am sut i wneud cais, cysylltwch â Karen yn Wooden Spoon, 41 Frimley High Street, Frimley, Surrey, GU16 7HJ. Ffôn: 01276410180. E-bost: macaulay@woodenspoon.com

Ymddiriedolaeth Elusennol Woodward

Rhoddir cyllideb flynyddol o rhwng £20,000 a £30,000 y flwyddyn i gefnogi gweithgareddau haf i blant rhwng 5 ac 16 oed. Dyfernir rhyw 30-50 o grantiau bob blwyddyn. Mae'r mwyafrif o'r grantiau a ddyfernir rhwng £500 a £1,000. Gellir ond rhoi grantiau i elusennau cofrestredig.

Yn gyffredinol, mae'r ymddiriedolwyr yn edrych trwy geisiadau ym mis Mai (rhoddir dyddiadau cau penodol yn y dyddiadur ar y wefan). Bydd yr ymddiriedolwyr ond yn ystyried ceisiadau a wneir ar eu ffurflen gais eu hunain y gellir ei lawr lwytho oddi ar y wefan. Rhoddir blaenoriaeth i:
gynlluniau bach lleol sy'n darparu rhaglen eang o weithgareddau sy'n cynnwys nifer fawr o blant sydd heb anghenion cymorth uchel
cynlluniau i blant difreintiedig neu'r rheiny sydd ag anabledd neu anghenion arbennig
cynlluniau sy'n annog integreiddiad cymdeithasol trwy weithio gyda phlant o wahanol gefndiroedd, gallu a hil
cynlluniau sy'n annog cyn ddefnyddwyr i ddod yn ôl i helpu fel gwirfoddolwyr.

Am fwy o wybodaeth a ffurflen gais, ffoniwch Karin Hooper ar 020 7410 0330 neu ewch i: www.woodwardcharitabletrust.org.uk

CYNGOR BWRDEISTREF WRECSAM

Cynllun grantiau cychwyn gwarchod plant

Mae Grant Cychwyn yn cael ei gynnig i warchodwyr plant sydd newydd gofrestru i'w helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â dechrau busnes fel gwarchodwr plant. Cyngor Bwrdeistref Wrexham yn ariannu darpariaeth Pecyn Dechrau Da'r Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA) a hyd at £300 i brynu offer iechyd a diogelwch hanfodol neu offer arall, megis teganau amlddiwylliannol a chyfleusterau cadw er mwyn galluogi gwarchodwyr plant newydd i ddarparu gwasanaeth o ansawdd

Bydd grantiau ychwanegol o £300 yn cael eu hystyried pan fo gwarchodwr plant yn: -

byw mewn ardal ddifreintiedig ac angen cyllid i ddechrau busnes fel gwarchodwr plant.

bwriadu darparu i blant sydd ag anghenion arbennig yn benodol ac a fydd yn defnyddio'r grant ychwanegol i dalu am offer neu addasiadau priodol (bydd angen derbynebau ar gyfer yr holl eitemau a brynir).

Mae ffurflenni cais a gwybodaeth bellach ar gael trwy ffonio Lynne Mort, Gwasanaeth Gwybodaeth Deuluoedd Wrecsam, 01978 298343/ 01978 292094, fis@wrexham.gov.uk

Grantiau Cynaladwyedd

Mae'r cyllid ar gael i sefydlu, cynnal neu ymestyn darpariaethau gofal plant o ansawdd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Rhoddir blaenoriaeth i unedau gofal plant yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf neu unrhyw ardaloedd eraill lle mae unedau'n bodloni anghenion y gymuned ac mewn perygl difrifol o gau. Mae ffurflenni cais a gwybodaeth bellach ar gael trwy ffonio Lynne Mort, Gwasanaeth Gwybodaeth Deuluoedd Wrecsam, 01978 298343/ 01978 292094, fis@wrexham.gov.uk

Grantiau ar gyfer Neuaddau Pentref

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gwahodd ceisiadau gan neuaddau pentref sir Wrecsam. Gellir defnyddio'r grantiau sy'n amrywio o £250 i £2,500 i brynu cyfarpar, trwsio adeiladau neu brynu pethau a fydd yn para am oes, megis mesurau arbed ynni. Ni ellir defnyddio'r grantiau i dalu am staff nac apeliadau cyffredinol. Gwahoddir ceisiadau gan ymddiriedolwyr neu bwyllgorau rheoli neuaddau pentref a chynghorau cymunedol sy'n rheoli neuaddau tref neu bentref.

Gall neuaddau eglwysi a mannau cyfarfod eraill wneud cais hefyd os nad oes neuadd bentref neu ganolfan gymunedol yn y gymuned dan sylw. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Mai 2008.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Lynn Jones ar 01978 297443 neu lawrlwythwch ffurflen gais o'r wefan: www.wrecsam.gov.uk.

Cronfa Deddfau Eglwysi Cymru

Rhoddir grantiau i fudiadau gwirfoddol ac elusennol (sy'n gweithio er budd uniongyrchol ardal Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ar gyfer eitemau o fudd parhaol, gan gynnwys offer a thrwsio ac adnewyddu adeiladau, nid costau rhedeg. Uchafswm y wobr fydd £500.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: Gareth Williams, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyllid a Gwybodaeth, Blwch SP 1295, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1WS. Ffôn: 01978 292716. Ebost: garethe.williams@wrexham.gov.uk

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)
Swyddog Cyllid
Tŷ AVOW, 21 Stryt Egerton
Wrecsam LL11 1ND
Ffôn: 01978 312556
Ffacs: 01978 263980

Uned Datblygu Busnes a Menter
Parc Menter y Bers
Ffordd Plas Grono
Rhostyllen
Wrecsam
LL14 4EG
Ffôn: 01978 366366

Gwasanaeth Gwybodaeth Deuluoedd Wrecsam
Llyfrgell a Chanolfan Gelf Wrecsam
Ffordd Rhosddu
Wrecsam
LL11 1AU
Ffôn: 01978 292094
E-bost: fis@wrexham.gov.uk

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (C.P.C.K.C)
Kathryn Tunnah/Sandra Thompson
Swyddog Datblygu Busnes Gofal-Plant Wrecsam
19 Princes Drive
Colwyn Bay/Bae Colwyn
Conwy
LL29 8HT
Ffôn: 01492 539772
E-bost: kathrynt@clybiauplantcymru.org/ sandrat@clybiauplantcymru.org
Gwefan: www.clybiauplantcymru.org

Mudiad Ysgolion Meithrin (M.Y.M)
Carys Gwyn (Cydlynydd)
Mudiad Ysgolion Meithrin
Swyddfa Gogledd Ddwyrain Cymru
Uned B
Pentref Busnes Iâl
Elice Way
Wrecsam
LL13 7YL
Ffôn: 07792 946837

Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant
Debbie Read (Cydlynydd Gogledd Cymru)
Tŷ Millwood
Ffordd Coed Afon
Stad Ddiwydiannol Wrecsam
Wrecsam LL13 9UH
Ffôn: 0845 8801 316. Gwefan: www.ncma.org.uk

Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol (NDNA)
Jackie Ryan (Cadeirydd Rhwydwaith NDNA Wrecsam)
Meithrinfa Playland
31 Ffordd Stansty, Rhosddu, Wrecsam LL11 2BT
Ffôn: 01978 351230

Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn Ysgol Cymru (PPA Cymru)
Wales Preschool Playgroups Assocation (Wales PPA), The Hutments, Llwynegrin County Hall, Mold CH7 6NB Ffon: 01352 756885

Syniadau i Godi Arian

Mae cynaladwyedd yn fater pwysig i ddarparwyr gofal plant ar draws y fwrdeistref sirol. Yn ogystal â chwilio am ffynonellau cyllid allanol, mae llawer o wahanol ffyrdd y gall darparwyr gofal plant godi arian yn eu grwpiau/mudiadau. Dyma rai syniadau:

Stondinau mewn ffeiriau

Ynys y Trysor	Gwaith crefft	Stondin nwyddau ail law
Dyfalu'r rhif	Dyfalu'r enw	Cŵn poeth
"Bat the Rat"	Teganau/gemau	Moes a phryn
Cacennau	Bachu hwyaden	Gemwaith
Tombola	Lluchio welingtons	Twb lwcus
Cystadleuaeth ciciau cosb	Rholio ceiniog	Dillad babanod
Planhigion	Taro coconyts	Recordiau/tapiau
Dyfalu'r pwysau	Fel newydd	

Gallwch godi mwy o arian trwy godi tâl ar faniau hufen iâ ac arlwyo a reidiau'r ffair i ddod ar safle'r ffair.

Digwyddiadau noddedig

Llenwi bocs matsis	Cerdded/trotian	Mabolgampau
Gwthio pramiau	Taith feicio	Taflen bosau
Picnic tedi bêrs	Dawnsathon	

Cystadlaethau

Gwisg ffansi	Sioe anifeiliaid anwes	Bonedi Pasg
Caraoce	Tynnu lluniau	Canu
Dawnsio	Sioe dalentau	

Cyffredinol

Ras falŵns	Pêl fonws	Barbiciw
Disgo	Cyngerdd	Ffair sborion
Ras grempogau	Bingo	Raffl
Peintio wynebau	Arwerthiant cist car	Ras hwyaid
Cwis	Arddangosiadau ffilmiau	Picnic
Diwrnod baneri		

SWYDDOG CYLLID GOFAL PLANT

Am fwy o wybodaeth a chefnogaeth, cysylltwch â:

Lynne Mort
Swyddog Cyllid Gofal Plant
Gwasanaeth Gwybodaeth Deuluoedd Wrecsam
Tŷ AVOW
21 Stryt Egerton
Wrecsam
LL11 1ND
Ffôn: 01978 298343/292094

Prif rôl Swyddog Cyllid Gofal Plant yw:

Cefnogi darparwyr gofal plant trwy ddod o hyd i ffynonellau cyllid er mwyn sicrhau cynaladwyedd hirdymor.

Cyhoeddi canllaw i ffynonellau cyllid i ddarparwyr gofal plant.

Cyfeirio darparwyr at arbenigwyr lleol a all roi cymorth busnes/rheoli manwl.

Rheoli Cynllun Grant Cynaladwyedd CYMORTH, Cynllun Grantiau Sefydlu i Warchodwyr Plant, y Cynllun Gofal Plant Noddedig a'r Cynllun Lleoedd â Chymorth.

Os hoffech i ni gynnwys unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau yn yr argraffiad nesaf, cysylltwch â Swyddog Cyllid Gofal Plant gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.